O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1270 (Cy. 161)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*8 Mai 2012*
Yn dod i rym	*18 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:30 o'r gloch ar 18 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A487 yn Aber-arth yn Sir Geredigion sy'n ymestyn o bwynt

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.